## Cynllun Gweithredu i Hybu'r Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf

Nod y Cynllun Gweithredu hwn yw adeiladu ar y seiliau a osodwyd gan Strategaeth Hybu 2017-2022 a'r gwaith a wnaed gan y Cyngor a'i bartneriaid i ddatblygu'r Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf. Y nod yw cyflawni'r canlynol dros y 5 mlynedd nesaf:

- Cynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg 5%
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd cymunedol a chyhoeddus
- Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg fel rhan hanfodol o hunaniaeth a chymeriad ardal Rhondda Cynon Taf.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn adlewyrchu'r dull partneriaeth sy'n hanfodol i gyflawni'r nodau hyn. Mae dwy ran i'r Cynllun fel bod eglurder o ran swyddogaeth a chyfrifoldeb y Cyngor a swyddogaethau partneriaid y Gymraeg a'r cyswllt rhyngom wrth gyflawni nodau cyffredin Cymraeg 2050. Caiff y Cynllun Gweithredu ei adolygu'n flynyddol a byddwn yn ychwanegu targedau newydd neu'n addasu'r rhai presennol i wthio datblygiadau yn eu blaen dros y 5 mlynedd nesaf fel ein bod yn y safle gorau i allu rhagori ar ein nodau pan fo'n bosibl.

Mae **Rhan 1** yn nodi'r gweithgareddau a'r targedau y mae'r Cyngor yn gyfrifol am eu cyflawni o dan y blaenoriaethau thematig a nodwyd, un ai drwy eu cyflenwi'n uniongyrchol neu drwy gydweithio neu gomisiynu gwasanaethau gan sefydliadau partner.

Mae **Rhan 2** yn nodi'n fras gweithgareddau ein partneriaid sydd â chyswllt uniongyrchol neu anuniongyrchol â thargedau Rhan 1. Caiff ein partneriaid eu hariannu gan sefydliadau eraill fel Llywodraeth Cymru ac maen nhw'n gweithredu yn unol â'u cylchoedd gorchwyl eu hunain fel mudiadau.

## RHAN 1

**CSCA – Agweddau hyrwyddo perthnasol sydd wedi'u cynnwys yma ar gyfer adrodd o dan Safonau 145 a 146, fel arall cyfeiriwch at Gynllun Gweithredu'r CSCA am fwy o fanylion ar Faes Strategol 1.**

***Mae'n bosibl bydd enwau swyddogion arwain/â chyfrifoldeb yn newid**

# MAES STRATEGOL 1: CYNYDDU NIFER Y SIARADWYR CYMRAEG YN RHCT

| | |
|---|---|
| **GWELEDIGAETH** | Cynyddu canran a niferoedd siaradwyr Cymraeg Rhondda Cynon Taf<br><br>Datblygu Rhondda Cynon Taf fel sir gwbl ddwyieithog; Bwrdeistref Sirol lle gall trigolion fyw, gweithio a chwarae, yn ogystal â chael mynediad at y gwasanaethau a'r cymorth sydd ei angen arnynt drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. |

| | |
|---|---|
| Meysydd blaenoriaeth | • Trosglwyddo'r Gymraeg o fewn y teulu<br>• Blynyddoedd Cynnar<br>• Addysg Statudol<br>• Addysg Ôl-16<br>• Y gweithlu |

| MAES BLAENORIAETH | NOD | CAMAU GWEITHREDU | STRATEGAETH / CYNLLUN CYFLAWNI LLEOL NEU GENEDLAETHOL BERTHNASOL | CYFRIFOLDEB | DIWEDDARIAD BLYNYDDOL |
|---|---|---|---|---|---|
| Trosglwyddo'r Gymraeg o fewn y teulu | **Cynyddu nifer y teuluoedd sy'n dewis trosglwyddo'r iaith i'w plant** | Dadansoddi dilyniant data cyfrifiad 2011-2021 fel sail i ymyriadau ac ymgyrchoedd hyrwyddo perthnasol. | Cynllun Strategol y CSCA 2022 - 2023 | Denise Humphries - Uwch Reolwr Prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Blynyddoedd Cynnar | **Cynyddu nifer y dysgwyr meithrin/ tair oed sy'n cael gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg** | Cynllun Strategol CSCA 2022-2032 RhCT | | Gaynor Davies – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant<br><br>Lisa Howell – Rheolwr Busnes Ysgolion yr 21ain Ganrif a Threfniadaeth Ysgolion | |
| | | Mewn cydweithrediad â phartneriaid, datblygu a gweithredu strategaeth gyfathrebu a marchnata i hyrwyddo negeseuon cadarnhaol a chyson i drigolion Rhondda Cynon Taf ar fanteision bod yn ddwyieithog; manteision gofal plant ac addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a’r adnoddau a'r cyfleoedd sydd ar gael. | CSCA - Cynllun Gweithredu Grŵp Marchnata | Lisa Howell – Rheolwr Busnes Ysgolion yr 21ain Ganrif a Threfniadaeth Ysgolion<br><br>Is-Grŵp Marchnata’r CSCA<br><br>Pencampwr Addysg Gymraeg Rhanbarthol | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Gyda phartneriaid, sicrhau bod y llyfryn Bod Dwyieithog a’r wybodaeth dan sylw yn ogystal ag adnoddau ehangach yn cael eu dosbarthu mor eang â phosib, ynghyd â defnyddio a hyrwyddo deunyddiau partner. | Cynllun Strategol CSCA 2022 - 2023 | Lisa Howell – Rheolwr Busnes Ysgolion yr 21ain Ganrif a Threfniadaeth Ysgolion<br><br>Is-Grŵp Marchnata’r CSCA<br><br>Pencampwr Addysg Gymraeg Rhanbarthol | |
| | | Gweithio gyda phartneriaid fel y Rhaglen Iechyd Cydnerth/Dechrau'n Deg/Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf/Cofrestryddion i ddosbarthu ac arddangos y llyfryn Bod yn Ddwyieithog a hyrwyddo'r ymgyrch. | Cynllun Strategol CSCA 2022 - 2023 | Hannah Bebb - Swyddog Cynllun Graddedigion Ysgolion yr 21ain Ganrif | |
| | | Sicrhau bod Cynnig Gofal Plant Cymru yn cael ei hyrwyddo’n effeithiol er mwyn cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y ddarpariaeth Gymraeg. | Cynllun Strategol CSCA 2022 - 2023<br><br>Strategaeth Gofal Plant Cymru | Denise Humphries – Uwch Reolwr Prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif (Gofal Plant a Phrosiectau Arbennig) | |
| Addysg statudol | **Cynyddu nifer y plant sy'n cael addysg Gymraeg yn** | CSCA 2022-2032 Rhondda Cynon Taf | Cynllun Strategol CSCA 2022 - 2023 | Gaynor Davies – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Rhondda Cynon Taf** | | | | |
| | **Hybu a chefnogi cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol** | Gweithredu CSCA 2022-2032 Rhondda Cynon Taf | Cynllun Strategol CSCA 2022 - 2023 | Daniel Williams - Pennaeth Gwasanaeth Presenoldeb a Llesiant | |
| | | Cynyddu gwaith gyda'r Siarter Iaith er mwyn nodi cyfleoedd i ddatblygu gweithgareddau i annog defnydd anffurfiol o'r iaith mewn cydweithrediad â phartneriaid. | Cynllun Strategol CSCA 2022 - 2023 | Bethan Davies – Consortiwm Canolbarth y De (CSC) | |
| | | Parhau i wella darpariaeth ar ôl ysgol/darpariaeth gwyliau drwy gyfrwng y Gymraeg. | Cynllun cyflawni YEPS | Bedwyr Harries - Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid | |
| | | Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chryfhau'r Fforwm Ieuenctid Cymraeg gan y partneriaid Cymraeg fel bod gan bobl ifanc lais o ran nodi eu hanghenion a'u dyheadau ynghylch cyfleoedd iddyn nhw ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau.<br><br>Cefnogi aelodau'r Fforwm Ieuenctid Cymraeg wrth ddod yn gynrychiolwyr ac eiriolwyr effeithiol dros eu cymunedau/grwpiau. | Cynllun cyflawni YEPS | Bedwyr Harries - Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysg Ôl-16 | **Hyrwyddo manteision sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer y byd gwaith, hyfforddiant, prentisiaethau ac addysg bellach/addysg uwch** | Gweithredu CSCA 2022-2032 Rhondda Cynon Taf<br><br>Mewn cydweithrediad â phartneriaid, datblygu a hyrwyddo ystod ehangach o lwybrau dysgu cyfrwng Cymraeg i fyd gwaith, hyfforddiant, prentisiaethau ac addysg bellach/uwch ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed. | Cynllun Strategol CSCA 2022 - 2023 | Siân Woolson – Rheolwr Tîm Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant<br><br>Martyn Silezin - Swyddog Strategaeth 14-19 | |
| | | Mewn cydweithrediad â phartneriaid, hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer cyrsiau addysg bellach/addysg uwch cyfrwng Cymraeg a modiwlau ar gyfer disgyblion Rhondda Cynon Taf. | Cofrestru/ ymrestru ar gyrsiau | Martyn Silezin - Swyddog Strategaeth 14-19 | |
| | | Cefnogi ac annog cyfranogiad yng ngweithgareddau Cymraeg cyn-gyflogaeth Cymunedau am Waith + i gyflwyno Cymraeg llafar a sgiliau Cymraeg sylfaenol. | Cynllun Cymunedau am Waith + | Eira Cook - Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol – wedi'i gysylltu ag Addysg i Oedolion | |
| Gweithlu Addysg | **Hyrwyddo datblygiad a hyfforddiant sgiliau Cymraeg ar gyfer gweithlu gofal plant a** | Gweithredu CSCA 2022-2032 Rhondda Cynon Taf<br><br>Annog darparwyr gofal plant i arolygu proffil ieithyddol staff a gwirfoddolwyr i nodi anghenion hyfforddiant, lefelau diddordeb mewn gwella sgiliau, gan fanteisio ar | Cynllun Strategol CSCA 2022 - 2023<br><br>Canlyniad Strategol 1 y CSCA | Denise Humphries – Uwch Reolwr Prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **blynyddoedd cynnar RhCT** | gymorth priodol drwy raglenni fel Croesi'r Bont a Clebran. | | | |
| | | Parhau i hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd dysgu Cymraeg ar gyfer lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar a gweithio mewn partneriaeth â nhw i ddatblygu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg. [Ystyried a ellid defnyddio'r ddarpariaeth fewnol bresennol CBSRhCT, e.e. hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith/hyfforddiant Cymraeg Lefel 1] | Cynllun Strategol CSCA 2022 - 2023<br><br>Canlyniad Strategol 1 y CSCA | Denise Humphries – Uwch Reolwr Prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif | |
| | | Hwyluso digwyddiadau rhwydweithio a rhannu gwybodaeth gyda darparwyr gofal plant cyfrwng Saesneg a phartneriaid allweddol er mwyn amlygu cyfleoedd i gyflwyno'r Gymraeg i'w lleoliadau a'u galluogi i gynnig darpariaeth Gymraeg i deuluoedd yn eu cymuned. | Cynllun Strategol CSCA 2022 - 2023<br><br>Canlyniadau Strategol CSCA 1 a 5 | Denise Humphries – Uwch Reolwr Prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif | |
| | **Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu dysgu Cymraeg /drwy gyfrwng y Gymraeg** | Gweithredu CSCA 2022-2032 Rhondda Cynon Taf<br><br>Parhau i hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd i'r gweithlu mewn ysgolion ddysgu/gwella sgiliau iaith Gymraeg.<br><br>Gweithio gydag ysgolion a phartneriaid i hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd ar gyfer | Cynllun Strategol CSCA 2022 - 2023<br><br>Canlyniadau Strategol CSCA 1 a 7 | Gaynor Davies – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant<br><br>Chris Newcombe - Prif Bartner Gwella | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | ehangu'r gweithlu gofal plant dwyieithog ym maes dysgu/gwella sgiliau iaith Gymraeg fel Cam wrth Gam. | | | |

| | |
|---|---|
| **Deddfwriaeth / strategaethau perthnasol** | • Cymraeg 2050<br>• Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015<br>• Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015<br>• Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032<br>• Cynllun Strategol Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant 2021-2024<br>• Strategaeth Recriwtio'r Gymraeg<br>• Cynllun Corfforaethol<br>• Cynllun Datblygu Lleol<br>• Strategaeth Dwristiaeth<br>• Cynllun Cydraddoldebau Strategol |
| **Partneriaid a chysylltiadau perthnasol** | • Holl feysydd Gwasanaeth CBSRhCT<br>• Y Fforwm Addysg Gymraeg<br>• Ysgolion yn Rhondda Cynon Taf<br>• Mudiad Meithrin<br>• Cymraeg i Blant<br>• RhAG<br>• Dysgu Cymraeg Morgannwg<br>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf<br>• Cwlwm<br>• Yr Urdd<br>• Menter Iaith<br>• Fforwm Iaith Rhondda Cynon Taf<br>• Fforwm Ieuenctid Cymraeg<br>• Aelwyd Cwm Rhondda<br>• Coleg y Cymoedd<br>• Coleg Cymraeg Cenedlaethol<br>• Met Caerdydd<br>• Consortiwm Canolbarth y De |

| | |
|---|---|
| | <ul><li>Gyrfa Cymru</li><li>Colegau Cymru</li><li>Cyngor Celfyddydau Cymru</li><li>Llenyddiaeth Cymru</li><li>Interlink</li></ul> |

| MAES STRATEGOL 2 CYNYDDU'R DEFNYDD O'R GYMRAEG YN RHCT<br>a<br>MAES STRATEGOL 3 CREU AMODAU FFAFRIOL |
|---|

| | |
|---|---|
| **GWELEDIGAETH** | Cynyddu canran a nifer y siaradwyr Cymraeg yn RhCT<br><br>Datblygu Rhondda Cynon Taf fel sir gwbl ddwyieithog. Bwrdeistref Sirol lle gall trigolion fyw, gweithio a chwarae, yn ogystal â chael mynediad i'r gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. |

| | |
|---|---|
| Meysydd thematig | • Gweithle<br>• Gwasanaethau<br>• Defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol / yn y gymuned<br><br>Gan ddylanwadu ar y themâu canlynol o ran seilwaith a chyd-destun:<br>• Cymuned ac Economi<br>• Diwylliant a'r cyfryngau<br>• Cymru a'r byd ehangach<br>• Technoleg Ddigidol<br>• Seilwaith ieithyddol<br>• Cynllunio ieithyddol<br>• Addysg ac ymchwil |

| MAES BLAENORIAETH | NOD | CAMAU GWEITHREDU | STRATEGAETH / CYNLLUN CYFLAWNI LLEOL NEU | CYFRIFOLDEB | DIWEDDARIAD BLYNYDDOL |
|---|---|---|---|---|---|

| | | | GENEDLAETHOL BERTHNASOL | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithle | **Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ar draws pob adran drwy gynyddu hyder a sgiliau ein staff**<br><br>**Bydd hyn hefyd yn ymgorffori'r nodau thematig canlynol:**<br><br>**Sicrhau bod y Cyngor yn chwarae ei rhan i sicrhau bod yr iaith wrth wraidd arloesedd technolegol i alluogi'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob cyd-destun digidol.**<br><br>**Sicrhau bod technoleg ac adnoddau iaith yn parhau i ddatblygu er mwyn cryfhau ein** | Gan fod gofyn i bob aelod o staff newydd ymgymryd â hyfforddiant L1 Cymraeg, mynd ati i gynyddu lefelau recriwtio a chyfraddau dilyniant rhwng lefelau 1-5 drwy godi ymwybyddiaeth rheolwyr a staff o fanteision a chyfleoedd gweithlu dwyieithog. | <u>Cynllun Gweithredu Safonau'r Gymraeg</u><br><br><u>Adroddiad Monitro Blynyddol</u> | Lisa Sheppard – Uwch Swyddog Cydymffurfio a Pholisi – y Gymraeg | |
| | | Parhau i hyrwyddo cyfleoedd dysgu Cymraeg i staff ar draws holl Wasanaethau CBSRhCT ac aelodau etholedig. | <u>Cynllun Gweithredu Safonau'r Gymraeg</u><br><br><u>Adroddiad Monitro Blynyddol</u> | Lisa Sheppard – Uwch Swyddog Cydymffurfio a Pholisi – y Gymraeg | |
| | | Parhau i weithio gyda Dysgu Cymraeg i sicrhau cynifer o gyfleoedd â phosib i staff ddysgu a defnyddio'u sgiliau Cymraeg naill ai yn y gwaith neu yn y gymuned. | <u>Cynllun Gweithredu Safonau'r Gymraeg</u><br><br><u>Adroddiad Monitro Blynyddol</u> | Lisa Sheppard – Uwch Swyddog Cydymffurfio a Pholisi – y Gymraeg | |
| | | Sicrhau calendr o ddigwyddiadau bob blwyddyn i'r staff i godi ymwybyddiaeth o, a hyrwyddo adnoddau Cymraeg a chyfleoedd yn y gwaith a gyda phartneriaid eraill yn fewn y gymuned (o ofal plant cyfrwng Cymraeg, dysgu a gwella sgiliau Cymraeg, digwyddiadau, clybiau, grwpiau cymunedol ayyb). | <u>Cynllun Gweithredu Safonau'r Gymraeg</u><br><br><u>Adroddiad Monitro Blynyddol</u> | Lisa Sheppard – Uwch Swyddog Cydymffurfio a Pholisi – y Gymraeg | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **seilwaith ieithyddol.** | Er mwyn annog y rhai sydd heb hyder yn eu sgiliau Cymraeg, cyflwyno cynllun cyfweliad gwarantedig i siaradwyr Cymraeg ar Lefel 3 neu'n uwch ar gyfer swyddi lle mae sgiliau Cymraeg yn cael eu hysbysebu fel rhai hanfodol. | <u>Cynllun Gweithredu Safonau'r Gymraeg</u><br><br><u>Adroddiad Monitro Blynyddol</u> | Richard Evans – Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol<br><br>Steffan Gealy – Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg – Rheolwr Gwasanaethau | |
| | | Parhau i ddarparu a datblygu cefnogaeth dechnolegol ar gyfer siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yn y Cyngor i allu darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg - h.y. pecyn Cysgliad, apiau ar gyfer dysgu Cymraeg ayb ar holl liniaduron/dyfeisiau'r Cyngor. | <u>Adroddiad Monitro Blynyddol</u> | Lisa Sheppard – Uwch Swyddog Cydymffurfio a Pholisi – y Gymraeg | |
| | | Hyrwyddo'r gofrestr o enwau lleoedd Cymraeg ac enwau strydoedd fel adnodd y gellir ei ddefnyddio i alluogi i bobl ddysgu mwy am eu hamgylchedd a hanes yr ardal. | <u>Adroddiad Monitro Blynyddol</u> | Lisa Sheppard – Uwch Swyddog Cydymffurfio a Pholisi – y Gymraeg | |
| | | | | | |
| Gwasanaethau | **Cynyddu'r ystod o wasanaethau sy'n cael eu cynnig i siaradwyr Cymraeg a chynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg** | Yn ystod unrhyw asesiad neu adolygiad mewnol o wasanaethau, mapio'r ddarpariaeth Gymraeg i nodi ac i fynd i'r afael â bylchau a meysydd blaenoriaeth. Bydd hyn yn darparu gwaelodlin ac yn galluogi'r Cyngor i fynd ati i hyrwyddo'r gwasanaethau sydd | Hunanwerthusiadau'r Gwasanaethau<br><br>Asesiadau effaith ar y Gymraeg | Lisa Sheppard – Uwch Swyddog Cydymffurfio a Pholisi – y Gymraeg | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Bydd hyn hefyd yn ymgorffori'r nodau thematig canlynol:**<br><br>**Sicrhau bod cynllunio a hyrwyddo ieithyddol yn ystyriaeth graidd i holl waith cynllunio polisïau'r Cyngor, gan ehangu ein dealltwriaeth o ddwyieithrwydd ac anghenion siaradwyr Cymraeg a sicrhau'r gefnogaeth orau bosibl.**<br><br>**Parhau i adeiladu ar ein sylfaen dystiolaeth o'r Gymraeg a siaradwyr Cymraeg yn RhCT er mwyn cefnogi gwaith polisi'r Cyngor a** | ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac i dargedu ymdrechion mewn meysydd penodol i ehangu'r ddarpariaeth. | | | |
| | | Diweddaru canllawiau ar gynllunio a llunio polisïau pan fydd ymchwil a data newydd ar gael er mwyn llywio penderfyniadau'n well fel eu bod yn cael yr effaith orau bosibl ar anghenion siaradwyr Cymraeg a defnydd o'r iaith. | Asesiadau Effaith ar y Gymraeg - prosesau a chanllawiau | Lisa Sheppard – Uwch Swyddog Cydymffurfio a Pholisi – y Gymraeg | |
| | | Hwyluso'r broses o rannu data ac ymchwil newydd i lywio gwaith cynllunio polisi cydweithwyr. | Asesiadau Effaith ar y Gymraeg - prosesau a chanllawiau<br><br>Storfa Ddata RhCT | Lisa Sheppard – Uwch Swyddog Cydymffurfio a Pholisi – y Gymraeg<br><br>Bea Jeffries – Dadansoddwr Data Cymunedol | |
| | | Ystyried sut gallai tlodi digidol effeithio ar allu pobl i ymgysylltu â'r Gymraeg a rhoi camau ar waith i liniaru hyn i sicrhau bod holl drigolion Rhondda Cynon Taf yn gallu manteisio ar gyfleoedd i fwynhau, dysgu a siarad Cymraeg | Asesiadau Effaith ar y Gymraeg - prosesau a chanllawiau<br><br>Proses Asesu Effaith Cydraddoldeb<br><br>Hunanwerthusiadau'r Gwasanaethau | Lisa Sheppard – Uwch Swyddog Cydymffurfio a Pholisi – y Gymraeg<br><br>Melanie Warburton – Rheolwr Amrywiaeth a Chynhwysiant | |
| | | Hwyluso digwyddiad rhwydweithio gyda swyddogion y Cyngor a phartneriaid y | Adroddiad Monitro Blynyddol | Lisa Sheppard – Uwch Swyddog Cydymffurfio a | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **chyflawniad y strategaeth hon.**<br><br>**Sicrhau bod y Cyngor yn chwarae ei ran i sicrhau bod yr iaith wrth wraidd arloesedd technolegol i alluogi'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob cyd-destun digidol.**<br><br>**Sicrhau bod yr iaith yn elfen greiddiol o ran cefnogi'r strwythur economaidd-gymdeithasol yn Rhondda Cynon Taf** | Gymraeg, partneriaid yn y gymuned a'r trydydd sector. Bydd hwn yn gyfle i ddod â phobl ynghyd i archwilio ffyrdd o gydweithio ar wahanol lefelau, a fydd, yn eu tro, yn darparu ac yn cyfoethogi cyfleoedd i drigolion Rhondda Cynon Taf ymgysylltu â'r Gymraeg, i siarad neu i ddysgu Cymraeg, ac i weithio neu wirfoddoli drwy gyfrwng y Gymraeg. | | Pholisi – y Gymraeg<br><br>Scott Thomas – Swyddog Prosiect yr Eisteddfod | |
| | | | | | |
| Defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol / yn y gymuned | **Gyda'n partneriaid:**<br>**(i) cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol ac o fewn cymunedau** | Cyfleu'r 3 neges graidd yma ar draws holl feysydd gwasanaeth RhCT fel nod cyffredinol y strategaeth hon i wella cyfleoedd i drigolion Rhondda Cynon Taf ddefnyddio'r Gymraeg. | Adborth Asesiadau Effaith ar y Gymraeg | Lisa Sheppard – Uwch Swyddog Cydymffurfio a Pholisi – y Gymraeg | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **(ii) cefnogi ffyrdd o wreiddio arferion cadarnhaol o ddefnyddio’r iaith**<br><br>**(iii) cynyddu cyfleoedd i bobl ddysgu ac ymarfer yr iaith yn eu cymunedau.**<br><br>**Bydd hyn hefyd yn ymgorffori'r nodau thematig canlynol:**<br><br>**Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei diogelu fel rhan annatod o'n diwylliant cyfoes.**<br><br>**Sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o'n hymdrechion i groesawu ac integreiddio'r rhai sy'n symud i Gymru a RhCT.**<br><br>**Sicrhau bod y Cyngor yn** | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **chwarae ei ran i sicrhau bod yr iaith wrth wraidd arloesedd technolegol i alluogi'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob cyd-destun digidol.** | | | | |
| | | Darparu cyfleoedd anffurfiol ac annog defnyddio'r Gymraeg mewn Canolfannau Cymunedol a Lleoliadau Cymunedol. | Cynllun Cyflawni RhCT Gyda'n Gilydd | Syd Dennis – Rheolwr Gwasanaeth – Rhondda Cynon Taf Gyda'n Gilydd | |
| | | Hyrwyddo cyfleoedd i grwpiau cymunedol Cymraeg gael mynediad at adnoddau a chyllid cymunedol. | Cynllun Cyflawni RhCT Gyda'n Gilydd | Syd Dennis – Rheolwr Gwasanaeth – Rhondda Cynon Taf Gyda'n Gilydd | |
| | | Datblygu cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg i newydd-ddyfodiaid, gan dynnu sylw at y ffaith bod y Gymraeg yn iaith sy'n perthyn i bawb yma yn Rhondda Cynon Taf | Cynllun Cyflawni RhCT Gyda'n Gilydd<br><br>Prosiect geirfa Cymraeg/Wcreineg i ffoaduriaid Wcráin – astudiaeth achos. | Syd Dennis – Rheolwr Gwasanaeth – Rhondda Cynon Taf Gyda'n Gilydd<br><br>Lisa Sheppard – Uwch Swyddog Cydymffurfio a Pholisi - y Gymraeg | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Ar lefel gymdogaeth/ward, tynnu partneriaid o wasanaethau eraill (diwylliannol, chwaraeon, y Gymraeg ayyb) a phartneriaid allanol y Gymraeg at ei gilydd i gynorthwyo'r gymuned i gyflawni eu dyheadau. | Cynllun Cyflawni RhCT Gyda'n Gilydd | Syd Dennis – Rheolwr Gwasanaeth – Rhondda Cynon Taf Gyda'n Gilydd | |
| | | Yn adolygiad 2022-23 o'r ddarpariaeth gwasanaethau, mapio'r ddarpariaeth Gymraeg i nodi a mynd i'r afael â bylchau a meysydd blaenoriaeth. | Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Cymunedau Am Waith + | Eira Cook - Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol | |
| | | Datblygu ymgyrch wedi'i thargedu ar gyfer y grŵp oedran 16-24 i hyrwyddo cyfleoedd gwaith dwyieithog, pwysigrwydd pob lefel o sgiliau Cymraeg a llwybr iaith Gymraeg i mewn i waith. | Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Cymunedau Am Waith + | Siân Woolson – Rheolwr Tîm Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant<br><br>Eira Cook - Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol | |
| | | Cefnogi ac annog cyfranogiad yng ngweithgareddau Cymraeg cyn-gyflogaeth Cymunedau am Waith + i gyflwyno Cymraeg llafar a sgiliau Cymraeg sylfaenol. | Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Cymunedau Am Waith + | Eira Cook - Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol | |
| | [Cysylltiadau â chanlyniad | Dadansoddi gwasanaethau er mwyn nodi bylchau mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg | Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Hamdden a YEPS | Lisa Sheppard – Uwch Swyddog Polisi a | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | strategol 5 y CSCA: Cynyddu cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol.] | ym maes gweithgareddau chwaraeon a hamdden - a blaenoriaethu meysydd i'w gwella. | | Chydymffurfio – y Gymraeg | |
| | | Gweithio gyda phartneriaid i flaenoriaethu'r gwaith o ehangu gwersi nofio Cymraeg ar draws canolfannau hamdden Rhondda Cynon Taf. | Cynllun Cyflawni Gwasanaeth Hamdden a YEPS | Gavin Bennett – Rheolwr Gweithrediadau Hamdden<br><br>Jonathan Phillips – Rheolwr Asedau Hamdden<br><br>Yr Urdd | |
| | | Gweithio gyda phartneriaid i ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg mewn canolfannau hamdden (e.e. gymnasteg). | Cynllun Cyflawni Gwasanaeth Hamdden a YEPS | Gavin Bennett – Rheolwr Gweithrediadau Hamdden | |
| | | Llais y Gymuned<br>Fel rhan o'r adolygiad o'r Gwasanaethau Diwylliannol (Ailosod y Deial), cynnal sgyrsiau creadigol gyda grwpiau cymunedol, dadansoddi data sydd ar gael i fapio anghenion a | Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd | Caroline O'Neill – Pennaeth Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | nodi bylchau yn y ddarpariaeth Gymraeg. Rhoi cynlluniau ar waith i ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn unol â'r canfyddiadau. | | | |
| | | Ystyried sut i ehangu'r arlwy Cymraeg mewn gwahanol raglenni megis Take pArt, Cymunedau am Waith +, gan ddod â'r celfyddydau'n agosach at wahanol grwpiau cymunedol Cymraeg. | Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd | Caroline O'Neill – Pennaeth Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd | |
| | | **Cysylltiadau â phartneriaid** Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi a hyrwyddo digwyddiadau a phrosiectau creadigol ac artistig (e.e. Parti Ponty, Artistiaid Cymunedol)<br><br>Archwilio cyfleoedd i gydweithio gyda phartneriaid i gynnig amrywiaeth ehangach o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg drwy weithgareddau cymunedol. | Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd | Caroline O'Neill – Pennaeth Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd | |
| | | **Gwaith rhanbarthol** - datblygu a chynhyrchu theatr Gymraeg i fynd ar daith ar draws y rhanbarth ac yn genedlaethol, mewn trafodaeth â phartneriaid rhanbarthol i edrych ar y | Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd | Caroline O'Neill – Pennaeth Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | manteision a'r cyfleoedd i rannu adnoddau. | | | |
| | | **Yr Eisteddfod Genedlaethol 2024**<br>Llunio rhaglen ddiwylliannol sy'n arwain at yr Eisteddfod a fydd yn:<br>• Ymgysylltu â chymunedau a chodi ymwybyddiaeth o'r iaith a'r cyfleoedd cysylltiedig<br>• Cynnig prosiectau artistig i wahanol grwpiau cymunedol<br>Ystyried sut gellir cynnal y gweithgareddau hyn mewn cymunedau y tu hwnt i 2024 | Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd | Caroline O'Neill – Pennaeth Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd | |
| | | **Ewch i weld**: Fel rhan o'r gwaith ehangach o adolygu darpariaeth Gymraeg y Cyngor, sicrhau amrywiaeth o gyfleoedd Cymraeg/dwyieithog fel rhan o'r rhaglen hon, a chynnwys partneriaid Cymraeg i helpu i hyrwyddo hyn i'n cymunedau. | Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd | Caroline O'Neill – Pennaeth Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd | |
| | | **Noson Allan:** hyrwyddo'r cynllun hwn ymhlith pobl ifanc drwy YEPS a'r fforwm ieuenctid Cymraeg/ aelwyd Rhondda / chweched dosbarth mewn ysgolion a'u hannog i fanteisio ar y cynllun. | Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd | Caroline O'Neill – Pennaeth Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | **Hwyluso'r Gymraeg:** Defnyddio hwyluswyr a chynorthwywyr sy'n siarad Cymraeg yn ystod digwyddiadau celfyddydol sy'n cael eu cynnal yn y Gymraeg neu Saesneg (e.e. Teuluoedd yn Gyntaf; gweithgareddau Take pArt) i ddarparu ar gyfer cyswllt Cymraeg yn ystod y digwyddiad. | Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd | Caroline O'Neill – Caroline O'Neill – Pennaeth Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd | |
| | | **Technoleg:** Archwilio sut y gallai technoleg newydd hwyluso darpariaeth Gymraeg/ddwyieithog (fel System Sibrwd Theatr Genedlaethol ar gyfer cyfieithu mewn digwyddiadau). | Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd | Caroline O'Neill – Pennaeth Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd | |
| | | Datblygu cyfleoedd i gynyddu gwaith ymgysylltu / hyrwyddo, a gweithgareddau Cymraeg o fewn cymunedau lleol. Er enghraifft: cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg mewn digwyddiadau Adrodd Stori ac arddangosfeydd Crefftau (gan gynnwys ar-lein). | Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd | Nick Kelland – Prif Lyfrgellydd | |
| | | Eisteddfod Genedlaethol 2024: mewn cydweithrediad â phartneriaid yn y Cyngor ac yn | Cynllun Cyflawni Llyfrgelloedd RhCT | Nick Kelland – Prif Lyfrgellydd | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | allanol, archwilio cyfleoedd i hyrwyddo adnoddau archif, datblygu arddangosfeydd a gweithgareddau ymgysylltu Cymraeg, sicrhau cyfleoedd Cymraeg cynaliadwy a pharhaus o fewn cymunedau lleol. | | | |
| | | Datblygu ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r amrywiaeth eang o adnoddau Cymraeg sydd ar gael o fewn y gwasanaeth. | Cynllun Cyflawni Llyfrgelloedd RhCT | Nick Kelland – Prif Lyfrgellydd | |
| | | Codi ymwybyddiaeth ymhlith rhanddeiliaid allweddol o adnoddau a chefnogaeth berthnasol sydd ar gael i godi proffil y Gymraeg a chynyddu'r cyswllt â siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn eu busnesau a'u digwyddiadau. | Cynllun Cyflawni Ffyniant a Datblygu | Derek James – Cyfarwyddwr Gwasanaethau – Ffyniant a Datblygu | |
| | | Datblygu ymgyrch i ddenu ymwelwyr a thrigolion fel ei gilydd i'r Gymraeg a'i hanes yn RhCT. | Cynllun Cyflawni Ffyniant a Datblygu | Derek James – Cyfarwyddwr Gwasanaethau – Ffyniant a Datblygu<br><br>Rheolwr Strategol – Twristiaeth a Digwyddiadau | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Profiad gwaith / lleoliadau: Mewn cydweithrediad â'r partneriaid perthnasol, datblygu strategaeth/cynllun i arwain i fyny at Eisteddfod Genedlaethol 2024 i godi ymwybyddiaeth rhanddeiliaid allweddol er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl a sicrhau cyfleoedd cynyddol i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn lleoliadau'r Cyngor a busnesau ac atyniadau twristiaeth lleol. (Mewn partneriaeth â swyddog Eisteddfod y Cyngor). | Cynllun Cyflawni Ffyniant a Datblygu | Derek James – Cyfarwyddwr Gwasanaethau – Ffyniant a Datblygu<br><br>Rheolwr Strategol – Twristiaeth a Digwyddiadau<br><br>Chris Richards – Atyniadau Ymwelwyr a Rheolwr Treftadaeth<br><br>Scott Thomas – Swyddog Prosiect yr Eisteddfod | |
| | | Prentisiaethau / gwirfoddoli: – cysylltu â phartneriaid i archwilio cyfleoedd i ddarparu profiad i bobl ifanc trwy gyfrwng y Gymraeg mewn rolau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, gan dynnu sylw at bwysigrwydd sgiliau dwyieithog i'r diwydiant. | Cynllun Cyflawni Ffyniant a Datblygu | Derek James – Cyfarwyddwr Gwasanaethau – Ffyniant a Datblygu<br><br>Rheolwr Strategol – Twristiaeth a Digwyddiadau<br><br>Chris Richards – Atyniadau Ymwelwyr a Rheolwr Treftadaeth<br><br>Siân Woolson – | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Rheolwr Tîm Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant | |
| | | Prentisiaethau - gyda phartneriaid, archwilio cyfleoedd i gynnig profiadau i bobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg mewn meysydd allweddol. | Polisi Graddedigion a Phrentisiaethau | Siân Woolson – Rheolwr Tîm Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant<br><br>Bedwyr Harries – Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid | |
| | | Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith, gwybodaeth ac adnoddau wedi'u teilwra ar gyfer cynghorwyr gyrfaoedd er mwyn eu galluogi i hyrwyddo gwerth sgiliau dwyieithog ar gyfer y gweithle. | Cynllun Cyflawni Cyflogaeth Addysg a Hyfforddiant | Siân Woolson – Rheolwr Tîm Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant | |
| | | Cynllun Graddedigion / Prentisiaethau - gyda phartneriaid, archwilio cyfleoedd i gynnig profiad i bobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg mewn meysydd allweddol fel gwasanaethau cyhoeddus, gofal iechyd, blynyddoedd cynnar. | Cynllun Cyflawni Cyflogaeth Addysg a Hyfforddiant | Siân Woolson – Rheolwr Tîm Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Ymchwilio i gyfleoedd i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng ngoleuni llwyfannau dysgu rhithiol/hybrid, yn ogystal â phosibiliadau gweithio'n rhanbarthol neu mewn partneriaethau ehangach. | Cynllun Cyflawni Addysg Oedolion | Val Clarke – Uwch Swyddog Cyflogadwyedd Dysgu Cymunedol | |
| | | Mewn cydweithrediad â phartneriaid, casglu gwybodaeth am yr holl gyfleoedd sydd ar gael i ddysgu Cymraeg yn RhCT, a hyrwyddo a marchnata'r rhain ar draws pob platfform er mwyn i drigolion Rhondda Cynon Taf gael gwybod am yr hyn sydd ar gael iddynt. Nodi bylchau yn y ddarpariaeth a cheisio mynd i'r afael â'r rhain gyda phartneriaid. | Cynllun Cyflawni Addysg Oedolion | Val Clarke – Uwch Swyddog Cyflogadwyedd Dysgu Cymunedol<br><br>Cymraeg i Oedolion<br><br>Grwpiau cymunedol | |
| | | **Llais y Gymuned**<br>Gweithio gyda phwyllgor cymunedol Canolfan Gartholwg i gynllunio rhaglen i gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio ac ymarfer y Gymraeg yn anffurfiol ac i wella hyder. | Cynllun Cyflawni Addysg Oedolion | Val Clarke – Uwch Swyddog Cyflogadwyedd Dysgu Cymunedol<br><br>Jayne Rogers – Cydlynydd Digwyddiadau Gartholwg<br><br>Menter Iaith | |

| | |
|---|---|
| **Deddfwriaeth / strategaethau perthnasol** | • Cymraeg 2050<br>• Rheoliad safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015<br>• Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015<br>• Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032<br>• Cynllun Strategol Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant 2021-2024<br>• Strategaeth Recriwtio'r Gymraeg<br>• Cynllun Corfforaethol<br>• Cynllun Datblygu Lleol<br>• Strategaeth Dwristiaeth<br>• Cynllun Cydraddoldebau Strategol |
| **Partneriaid a chysylltiadau perthnasol** | • Holl feysydd Gwasanaeth CBSRhCT<br>• Cynghorau Tref a Chymuned<br>• Fforwm Iaith Rhondda Cynon Taf<br>• Y Fforwm Addysg Gymraeg<br>• Ysgolion yn Rhondda Cynon Taf<br>• Mudiad Meithrin<br>• Cymraeg i Blant<br>• RhAG<br>• Dysgu Cymraeg Morgannwg<br>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf<br>• Cwlwm<br>• Yr Urdd<br>• Menter Iaith RhCT<br>• Fforwm Iaith Rhondda Cynon Taf<br>• Fforwm Ieuenctid Cymraeg<br>• Aelwyd Cwm Rhondda<br>• Eisteddfod y Rhondda<br>• Gŵyl Gelfyddydau Cwm Rhondda<br>• Coleg y Cymoedd<br>• Coleg Cymraeg Cenedlaethol<br>• Met Caerdydd<br>• Consortiwm Canolbarth y De |

| | |
|---|---|
| | • Gyrfa Cymru<br>• Adran Gwaith a Phensiynau'r DU<br>• Colegau Cymru<br>• Eisteddfod Genedlaethol Cymru<br>• Cyngor Celfyddydau Cymru<br>• Llenyddiaeth Cymru<br>• Merched y Wawr<br>• Papurau Bro<br>• Theatrau, orielau a chanolfannau celfyddydol<br>• Clwb y Bont<br>• Interlink |

## RHAN 2 Y CYNLLUN GWEITHREDU

## PARTNERIAID – CYDWEITHIO A CHYD-HYRWYDDO

| MAES BLAENORIAETH | NOD | CAMAU GWEITHREDU | CYFRIFOLDEB | DIWEDDARIAD BLYNYDDOL |
|---|---|---|---|---|
| **Maes Strategol 1 - Blynyddoedd Cynnar / Gweithlu [CSCA]** | | Parhau i gynghori, cefnogi a chydweithio gyda CBSRhCT er mwyn:<br><br>• sicrhau cynnydd yn nifer y plant sy’n cael mynediad at/mynychu cylchoedd Ti a Fi a Chylchoedd Meithrin ar draws y sir<br><br>• sicrhau cynnydd mewn darpariaeth Gymraeg mewn lleoliadau Dechrau’n Deg ledled y sir<br><br>• sicrhau cynnydd yn y gyfradd drosglwyddo o’r blynyddoedd cynnar i addysg cyfrwng Cymraeg<br><br>• gweithio gyda’r Cyngor a’i bartneriaid i feithrin ac ehangu sgiliau’r gweithlu gofal plant yn y sir. | **Mudiad Meithrin**<br><br>**[CSCA]** | |
| **MS1 / MS2 / MS3** | | Parhau i gynghori, cefnogi a chydweithio â CBSRhCT i hyrwyddo ac ehangu'r ystod o weithgareddau Cymraeg sy'n cael eu cynnig ar gyfer plant a phobl ifanc y tu hwnt i'r dosbarth mewn gweithgareddau:<br><br>• chwarae (Chwarae yn Gymraeg)<br>• chwaraeon (e.e. nofio, gymnasteg, cyfranogiad Fel Merch)<br>• celfyddydau cymunedol, clybiau, gweithgareddau gwyliau, Eisteddfod<br>• datblygu arweinwyr cymunedol ifanc<br>• gwirfoddoli a hyfforddiant<br>• prentisiaethau<br>• cyfleoedd preswyl | **Yr Urdd** | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Ar y cyd â CBSRhCT, nodi ble gellir rhannu adnoddau a lleoliadau priodol er mwyn ehangu mynediad.<br><br>Gweithio gyda'r Cyngor a phartneriaid ehangach i godi ymwybyddiaeth o'r Gronfa i Bawb er mwyn sicrhau llefydd yng ngwersylloedd yr Urdd i blant na fyddai fel arall yn cael cyfle i fynd ar wyliau haf. | | |
| **MS1 / MS2 / MS3** | | Yn yr adolygiad o Gynllun Datblygu Strategol y Gymraeg ar gyfer Coleg y Cymoedd 2018-2023, chwilio am gyfleoedd pellach i gysoni agweddau o'r cynllun ar gyfer 2023 a thu hwnt â CSCA CBSRhCT a'r Strategaeth Hybu 5 mlynedd.<br><br>Parhau i weithio gyda CBSRhCT i hyrwyddo cyfleoedd gyda llwybrau Cymraeg i waith a manteision y Gymraeg o ran cyflogadwyedd fel sgil yn y gweithle. | **Coleg y Cymoedd** | |
| **MS1 / MS2 / MS3** | | Parhau i gynghori, cefnogi a chydweithio gyda'r Cyngor i:<br><br>• hybu ac ehangu cyfleoedd i staff a thrigolion Rhondda Cynon Taf i ddysgu Cymraeg<br>• nodi ble y gellir rhannu adnoddau a lleoliadau priodol er mwyn galluogi pobl i ddysgu Cymraeg yn eu cymunedau eu hunain<br><br>Gweithio gyda'r Cyngor a phartneriaid ehangach i godi ymwybyddiaeth o Gronfa Ariannol Wrth Gefn Dysgu Cymraeg i gynorthwyo gyda chostau fel gofal plant, teithio neu adnoddau wrth ddysgu Cymraeg. | **Dysgu Cymraeg Morgannwg** | |
| **MS1 / MS2 / MS3** | | Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod awdurdodau lleol yn bartner hanfodol o ran darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol i'w phoblogaeth a bod cynnig gofal di-dor yn y Gymraeg rhwng gofal sylfaenol, eilaidd a gofal cymdeithasol i'r rhai sydd ei angen yn golygu bod angen gweithio mewn partneriaeth agos â nhw. O'r herwydd, bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio gyda CBSRhCT | **Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf** | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | fel partner craidd ar Fforwm Mwy na Geiriau, er mwyn cysoni egwyddorion allweddol Mwy na Geiriau gyda nodau'r strategaeth 5 mlynedd o gynyddu gwasanaethau Cymraeg i breswylwyr a defnyddio'r iaith yn y gweithle; a cheisio gwreiddio arferion da'r Cynnig Gweithredol ar lefel ehangach yn RhCT.<br><br>Parhau i weithio gyda phartneriaid i hyrwyddo gyrfaoedd o fewn y GIG i siaradwyr Cymraeg a phobl ifanc sy'n gadael yr ysgol yn RhCT a'r rhanbarth ehangach fel rhan o gynllun 5 mlynedd y Bwrdd Iechyd ei hun i gynyddu nifer yr ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg a'i brosesau cynllunio'r gweithlu er mwyn cynyddu ei weithlu dwyieithog. | | |
| **MS1 / MS2 / MS3** | | Gweithio gyda'r Cyngor a phartneriaid ehangach i hyrwyddo cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol (e.e. cyfleoedd i wirfoddoli; prosiectau cymunedol; prosiectau mewn ysgolion).<br><br>Trafod gyda CBSRhCT rôl Menter Iaith RhCT wrth gynorthwyo gyda'r gwaith o gynnal 'Gwaddol' Eisteddfod Genedlaethol 2024 o fewn cymunedau RhCT i'r dyfodol.<br><br>Trafod gyda'r Cyngor sut i sicrhau y gall digwyddiadau Parti Ponty/Nadolig/Dydd Gŵyl Dewi roi cyfleoedd i wireddu nodau allweddol y Strategaeth Hybu drwy hyrwyddo'r iaith, codi ymwybyddiaeth a dod â chymunedau ynghyd i gymdeithasu ac i ddefnyddio'r iaith mewn amrywiaeth o gyd-destunau.<br><br>Cryfhau llais pobl ifanc Rhondda Cynon Taf drwy weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod y Fforwm Ieuenctid Cymraeg yn effeithiol ac yn gynhwysol er mwyn clywed lleisiau, dyheadau ac anghenion pobl ifanc Rhondda Cynon Taf a'u bod yn chwarae rhan weithredol wrth gynllunio cyfleoedd priodol.<br><br>Parhau i arloesi gyda thechnoleg i hyrwyddo cyfleoedd ar blatfformau amrywiol a thargedu gwahanol gynulleidfaoedd (gwefan/ Prosiect Medrau /AMAM Cymru ayb) | **Menter Iaith** | |